COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2 ail o RHAGFYR 2019 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Ian Evans,Tracey James,Linda Williams,Heddwyn Jones,Aled Williams,Alan Lewis,Meic Bowen,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Caroline Williams,Tyssul Evans a Geoff Hewitt

2316 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2317 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 04/11/2019 fel rhai cywir.

2318 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2296 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Penderfynwyd gofyn am Gyfarfod Safle ac os gwrthodwyd y cais ein bod yn gofyn i ddymchwel yr adeilad.
Tud 2. Cofnod Rhif 2309 – Swyddfa Bost Carwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth Cyngor Cymuned Pontyberem.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwyr Ian EvansTracey James a Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2319 Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phont-henri - Bws i Gyngerdd Carolau Cymunedol - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £80.

Ian,Tracey a Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2320 Cancer Information and Support Services – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50

2321 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50

2322 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2323 Cadeirydd Cyngor Sir Gar - Apêl Nadolig - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2324 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Yswiriant y Parc– Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2325 SLCC – Tal Aelodaeth – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r cyfraniad o £109

2326 ALCC – Tal Aelodaeth – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r cyfraniad o £40

2327 Cyngor Sir Gar - Goleuadau Tai Ffoslas - Penderfynwyd gofyn am Gyfarfod Safle.

2328 Cyngor Sir Gar – Gwasanaethau Bws ac Amserlen Newydd – Nodwyd yr E-bost.

Ceisiadau Cynllunio

2329 Dim Ceisiadau Cynllunio

Gwaharddiad y Cyhoedd

2330 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2331 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Tachwedd 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2332 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Tachwedd)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Tachwedd)
ch) HMRC (Treth)- £89.60 (Mis Tachwedd)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Tachwedd)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Tachwedd)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Tachwedd)- £182.00
f) Glyndwr Prideaux - Stampiau - £31.44
ff) Justin Gravell – Gwaith yn y Plwyf - £2394.00

Adroddiad yr Is-bwyllgor Cyllid - 02/12/19

2333 Adolygu Parciau Gwynfryn a Phontiets - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi derbyn Llythyr oddiwrth ddisgyblion blwyddyn 4,5 a 6 yn Ysgol Gwynfryn yn gofyn am welliannau ym Marc Gwynfryn. Hefyd mae angen adolygu Parc Pontiets. Penderfynwyd gofyn i Gwmni Wicksteed am Gyfarfod safle yn y ddau Barc.

2334 Praesept 2020 – 2021 – Derbyniwyd argymhelliad yr Is-bwyllgor ein bod yn codi'r Praesept 4.5% y flwyddyn am 2020 - 2021

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2335 Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod Cwyn yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad a wnaethpwyd yn erbyn un o Gynghorwyr y Cyngor. Nodwyd y Llythyr.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Ionawr 2020 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……